

Rhestr Wirio gohebu'n gywir

Safonau'r Iaith Gymraeg

Rhestr Wirio gohebu'n gywir – Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae nifer o gwynion diweddar wedi golygu ein bod eisiau cadarnhau'r rheolau ynglŷn â gohebu'n ddwyieithog gyda holl adrannau'r Cyngor. Fel staff, rydych chi mewn sefyllfa delfrydol i fedru sicrhau bod popeth yn ei le yn eich hadrannau. Cofiwch ofyn ich [Arweinwyr Iaith](#) am cymorth os oes angen.

Dyma restr deg pwynt a fydd yn cynorthwyo i warchod eich hadran rhag derbyn cwynion gan y cyhoedd neu drwy'r Comisiynydd Iaith:

1. **Oes gan bawb lofnod e-bost dwyieithog** gyda'r Gymraeg yn gyntaf a logo  os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg neu  os ydych chi'n dysgu Cymraeg.

Mae angen gwneud yn siŵr fod gan bawb (siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg) y frawddeg hyn ar ddiwedd yr e-bost, fel rhan o'r llofnod:

Croeso i chi gysylltu gyda Cyngor Sir Gâr yn Gymraeg neu'n Saesneg / You're welcome to contact the Council through the medium of Welsh or English

Enghraifft:

Miriam Jones 

Swyddog Polisi Iaith Gymraeg / Welsh Language Policy Officer
Cyngor Sir Caerfyrddin / Carmarthenshire County Council

MJones@sirgar.gov.uk

01267 224651

Mewnol / Internal: 4651

Croeso i chi gysylltu gyda Chyngor Sir Gâr yn Gymraeg neu yn Saesneg

You are welcome to contact Carmarthenshire Council in Welsh or English

2. **Oes gan bawb Gwas allan o'r swyddfa** dwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf?

Enghraifft:

Diolch am eich neges. Rwyf allan o'r swyddfa tan ddydd Mercher, 3 Mawrth ac fe atebaf mor fuan â phosib ar ôl i mi ddod yn ôl. Os ydy'n fater brys, gallwch gysylltu â

Thank you for your message. I am out of the Office until Wednesday, 3 March and I will answer as soon as possible after my return. If it's an urgent matter, please contact

3. Ydy eich ffurflenni papur ac electroneg i gyd yn nodi ar y diwedd

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg / This form is available in Welsh and in English

4. Ydy blwch / blychau e-bost cyffredinol yr adran yn dilyn yr un rheolau ag uchod gyda llofnod e-bost yn atgoffa'r cyhoedd bod 'Croeso i chi gysylltu gyda Chyngor Sir Gâr yn Gymraeg neu yn Saesneg / You are welcome to contact Carmarthenshire Council in Welsh or English'.
5. Ydy pawb yn cychwyn pob gohebiaeth cyntaf yn ddwyieithog ac yn ateb e-bost neu lythyr Cymraeg yn Gymraeg?
6. Oes gennych chi system cofnod cwsmeriaid sy'n cofnodi dewis iaith, drwy ofyn, 'a hoffech gael gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg?'
7. Ydy pawb yn ateb e-byst yn ddwyieithog os nad ydych yn siŵr o ddewis iaith yr unigolyn? Cofiwch na allwn ni gymryd yn ganiataol fod rhywun eisiau ateb uniaith Saesneg am eu bod nhw wedi ysgrifennu atom yn Saesneg. Os ydych chi'n debygol o ohebu gyda rhywun yn aml (yn Gymraeg neu yn Saesneg), gofynnwch beth yw eu dewis iaith cyn dechrau gohebu a chadwch gofnod o'r ateb.
8. Os oes gohebiaeth Saesneg yn mynd allan at unigolyn yn Saesneg am eich bod yn gwybod ei ddewis iaith, oes yna frawddeg ar ddiwedd yr e-bost Saesneg yn atgoffa bod 'Croeso i chi gysylltu gyda Chyngor Sir Gâr yn Gymraeg neu yn Saesneg / You are welcome to contact Carmarthenshire Council in Welsh or English'. Cofiwch nad ydy llofnod e-bost yn ymddangos ar eich e-bost pob tro.
9. Os oes yna e-bost yn gofyn neu'n sefydlu dewis iaith cwsmer, ydych chi'n cadw'r e-bost honno mewn ffeil benodol?
10. Ydych chi'n pasio gwybodaeth ymlaen am ddewis iaith cwsmeriaid wrth anfon tasgau o un aelod o staff i un arall?

Os hoffech gyngor neu gymorth, cysylltwch â iaithgymraeg@sirgar.gov.uk. Mae llwyth o dempledi a theitlau swyddi ayb ar gael ar y [fewnrrwyd](#)